PECYN GWYBODAETH

Beth yw Ras yr Iaith?

Nid ras i athletwyr yw Ras yr Iaith, nid yw hi'n gystadleuol, ras yw hi **dros y Gymraeg gan bobl Cymru**. Ei phwrpas yw dathlu'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth o'r iaith, dangos hyder ati a dangos i'r byd fod cefnogaeth i'r Gymraeg ar lawr gwlad.

Hybu'r Gymraeg: Tynnu siaradwyr Cymraeg, Cymry Cymraeg, pobl di-Gymraeg a dysgwyr at ei gilydd.

Hybu Mudiadau Cymraeg: Cyfle i gryfhau mudiadau Cymraeg a chlybiau drwy godi proffil ac arian mewn digwyddiadau ar hyd y daith.

Uno Cymru a'r Gymraeg: Bydd y Ras yn cysylltu ardaloedd Cymraeg a di-Gymraeg eu hiaith, trefol a gwledig, breintiedig a difreintiedig gan ddangos amrywiaeth siaradwyr Cymraeg.

Codi Proffil y Gymraeg: Bydd yn denu sylw yn y cyfryngau Cymraeg a Chymreig yn genedlaethol ac yn lleol, ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y we. Bydd yn ffordd bositif o ddangos fod y Gymraeg yn iaith ac iddi filoedd o gefnogwyr.

Codi Proffil Cymunedau: Tynnu sylw at fudiadau a sefydliadau cymunedol a chryfder cymunedau ar hyd y daith.

Hybu Iechyd Corfforol: Bydd yn hyrwyddo iechyd corfforol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ffordd o Gymreigio clybiau athletau a chlybiau chwaraeon eraill sy'n cymryd rhan.

Codi arian: Buddsoddi'r elw o'r ras yn ôl i fudiadau er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gweinyddir yr arian a godir gan Rhedadeg Cyf – cwmni nid-er-elw a sefydlwyd yn unswydd i gefnogi'r ras.

Hanes Ras yr Iaith

Mae'r Ras wedi ei seilio ar ras y Korrika a ddechreuodd yng Ngwlad y Basg, sydd wedi esgor ar ras debyg yn Llydaw (ar Redadeg) a'r Iwerddon (an Rith).

Cynhaliwyd y Ras yr Iaith cyntaf yng Nghymru yn 2014 ac yna 2016, bydd y nesaf yn mis Gorffennaf 2018.

Ras yr Iaith 2016

3 diwrnod o redeg

25 o drefi

2,000 o redwyr yn cymryd rhan

3,000+ o gefnogwyr ar hyd y stydoedd

250 o stiwardiaid yn gwirfoddoli

7 noddwr cenedlaethol

£14,000 o arian grant ar gael i fudiadau

45 o fudiadau'n derbyn grant

Dylan Lewis, Pennaeth Adran y Gymraeg Ysgol Uwchradd Dyffryn Aman:

"Roedd disgyblion yr ysgol wrth eu bodd yn cymryd rhan yng Nghymal Rhydaman o Ras yr Iaith y llynedd a chael bod yn rhan o ddigwyddiad Cymraeg oedd mor weladwy i bawb yn yr ardal."

Cafodd y Ras sylw gwych yn y wasg a'r cyfryngau gyda sylw ar raglenni teledu a radio cenedlaethol a phresenoldeb wasg yn ystod y Ras.

Ras yr Iaith 2018 - Gorffennaf 4-6

Y LLWYBYR

Wrecsam, Llanrwst, Bangor, Porthaethwy, Machynlleth, Aberystwyth

Hwlffordd, Dinbych y pysgod, San Clêr, Caerfyrddin, Rhydaman, Llanelli

Ystradgynlais, Pontardawe, Clydach, Porthcawl, Caerffili

Mae trefnwyr Ras yr Iaith yn gyfarwydd â'r gwaith sydd rhag blaen ac yn ystod y ras. **Diogelwch** y rhedwyr sydd flaenaf ar eu meddyliau a'u paratoadau.

Stiwardiaid ac Arwyddion: mae siwtardiaid Ras yr Iaith yn stiwardio pob cymal gan wisgo siacedi llewys hir 'high-vis'. Mae hefyd arwyddion diogelwch i rybuddio'r cyhoedd bod y Ras yn digwydd.

Cerbydau Cefnogi: caiff y Ras ei harwain gan gerbyd blaen bydd yn sicrhau fod y ffordd yn glir ac yn ddiogel. Caiff hwn ei ddilyn rhyw 5 munud wedyn gan Fan y Ras. Yn dilyn y Fan yma bydd y rhedwyr a tu ôl i'r rhedwyr bydd cerbyd olaf y Ras yn sicrhau fod diogelwch yn y tu cefn.

Yswiriant: mae 'indemnity' o hyd at £5m gan y Ras ar y rhedwyr a'r stiwardiaid. Rhedwyr: Bydd oedolion / athrawon / gofalwyr yn rhedeg gyda phlant. Rhaid bod pawb sy'n rhedeg o iechyd corfforol derbyniol.

Yr heolydd: Mae trefnwyr y Ras mewn cyswllt cyson gyda'r heddlu a'r awdurdodau lleol / ffyrdd. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn y Ras yn derbyn manylion y cymal rhedeg o flaen llaw.

NODDI

Bydd eich nawdd hael yn ein galluogi i drefnu'r ras mor effeithiol â phosib drwy dalu am adnoddau a hyfforddiant angenrheidiol.

£2,500

Chi fydd un o brif noddwyr y ras. Bydd eich logo yn cael ei weld yn glir, uwchben noddwyr eraill, ar holl ddeunydd cyhoeddusrwydd ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo. Byddwn hefyd yn diolch am eich nawdd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dolen i'ch gwefan.

Byddwch yn cael eich enwi fel prif noddwyr ar ddatganiadau i'r wasg i hysbysebu'r ras a byddwn yn gofyn am ddyfyniad gennych. Bydd hyn yn gyfle gwych i ddangos cefnogaeth eich mudiad tuag at y Gymraeg a chymunedau dros Gymru.

Bydd eich nawdd yn ein galluogi i drefnu hyfforddiant i'r stiwardiaid fydd yn arwain y ffordd i'r rhedwyr.

£1,000

Bydd eich logo yn cael ei weld yn glir, o dan logos y prif noddwyr, ar holl ddeunydd cyhoeddusrwydd y ras ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo. Byddwn hefyd yn diolch am eich nawdd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dolen i'ch gwefan.

Bydd eich nawdd yn mynd tuag at hurio cerbyd cefnogi fydd yn arwain y ras ac yn cario Baton yr Iaith rhwng y cymalau.

£500

Bydd eich logo yn cael ei weld ar ein gwefan a byddwn yn diolch am eich nawdd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dolen i'ch gwefan.

Bydd eich nawdd yn mynd tuag at brynnu siacedi 'high-vis' ar gyfer yr holl stiwardiaid fydd yn gwarchod y rhedwyr.

Cefnogwyr Grantiau Cymal

Dyma gyfle i gymdeithasau, mudiadau neu unigolion sy'n lleol i lwybr y ras ac yn gefnogol o'r iaith fod yn rhan. Drwy gyfraniad o **£50** byddwch yn noddi cymal. Bydd yr arian hwn yn cael ei roi mewn i bot grantiau fydd ar gael i fudiadau yn ardaloedd y cymalau geisio amdanynt. Bydd grantiau yn cael eu rhoi i fudiadau sy'n ymgeisio i gynyddu neu gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Am eich cyfraniad bydd enw eich mudiad neu enwau'r unigolion yn cael eu cynnwys ar dudalen Cefnogwyr ar ein gwefan ac ar blacardiau yn ystod y cymal hwnnw o'r ras.

DIOLCH

Mae Ras yr Iaith yn cael ei drefnu ar y cyd rhwng cwmni Rhedadeg, Mentrau Iaith Cymru a rhai o'r Mentrau Iaith unigol sy'n galluogi i'r ras ymweld â chymunedau dros Gymru.

Ni fyddai'r ras yn digwydd oni bai am gefnogaeth gan y cynghorau sir, cynghorau tref a'r heddlu ar draws Cymru felly mae'r trefnwyr yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i helpu.

Ond mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r rhedwyr a'r cyfranwyr am fod yn hael gyda'u harian a'u hamser i gefnogi'r iaith Gymraeg yn eu cymunedau. Diolch!

MENTRAU IAITH

INFORMATION PACK

What is Ras yr Iaith? (The Language Race)

Ras yr Iaith is not a competitive race for athletes, Ras yr Iaith is a race **for the Welsh language by the Welsh people**. Its purpose is to celebrate the Welsh language, to raise awareness, show confidence in the language and to show the world that the language has support by all, whether you speak the language or not.

Promoting Welsh: Bringing Welsh speakers, non-Welsh speakers and learners together.
Promoting Welsh Organisations: An opportunity to strengthen Welsh language organisations and clubs by raising profile and money at events along the race's journey.
Connecting Wales with the Welsh language: The race will connect Welsh speaking areas and non-Welsh speaking areas, townsfolk and countryside, prosperous and non-prosperous, reflecting the variety of Welsh speakers.
Raising Welsh language profile: This will attract attention in the Welsh media locally and nationally, and increasing the use of the language on the Internet. It is a positive way to show that the language has thousands of supporters.
Raising communities' profile: Bringing awareness towards communal societies and organisations and awareness of the strength of communities along the race.
Health benefits: The race promotes well-being and fitness through the medium of Welsh and is a way to bring Welsh to other sports and athletic clubs taking part.
Raising money: Profit raised is invested back into organisations that help promote the Welsh language. The money raised is administered by Rhedadeg Ltd – a non-profit based company created specifically to support the race.

A little history...

The Race is based on a race called the Korrika which began in the Basque Country, this in turn influenced a similar race in Brittany (ar Redadeg) and Ireland (an Rith).

The first Ras yr Iaith began in Wales in 2014 and then 2016, the next will happen July 2018.

Ras yr Iaith 2016

3 days of running

25 towns

2,000 runners taking part

3,000+ supporters on the streets

250 stewards volunteering

7 national sponsors

£14,000 grant money for organisations

45 organisations receiving grants

Dylan Lewis, Head of Welsh Department, Dyffryn Aman Secondary School:

"The pupils were delighted in taking part when Ras yr Iaith came to Ammanford in 2016, and being part of such a visceral Welsh occasion in the area."

The Race received great attention in the media and newspapers, especially on national TV and radio.

Ras yr Iaith 2018 - July 4-6

THE ROUTE

Wrexham, Llanrwst, Menai Bridge, Machynlleth, Aberystwyth

Haverfordwest, Tenby, Saint Clares, Carmarthen, Ammanford, Llanelli

Ystradgynlais Pontardawe, Clydach, Porthcawl, Caerphilly

The Ras yr Iaith organisers are very familiar with the organisational work beforehand and during the race. It is the runner's **safety** that is at the forefront of their minds and preparations.

Stewards and Signs: Ras yr Iaith stewards are prevalent at every stage of the race wearing long sleeved high-vis jackets. There are also safety signs warning the public that the Race is taking place.

Support Vehicles: the Race is led by a vehicle making sure that the road is clear and safe. This is followed about 5 minutes later by the Race's van. The runners will be following this van and behind the runners will be the last vehicle for the Race securing safety behind.

Insurance: the Race has indemnity up to £5m for the runners and stewards. Runners: adults / teachers / carers will run with children. Everyone running needs to be of acceptable physical health.

Roads: organisers of the race are in constant contact with the police and local authorities. Everyone taking part in the race receive the race's stage info beforehand.

SPONSOR

Your generous sponsorship will allow us to organise the race as effective as possible by paying for necessary resources and training.

£2,500

You will be one of the race's main sponsors. Your logo will be placed clearly, above other sponsors, on all the race's publicity and promotional material. We will also thank you for your sponsorship on our social media with a link to your website.

You will be named as a main sponsors on press releases to advertise the race and we will request a quote from you. This will be a great opportunity to show your organisation's support towards the Welsh language and communities.

Your sponsorship will enable us to organise training for the stewards that will lead the runners.

£1,000

Your logo will be places clearly, below main sponsors, on all the race's publicity and promotional material. We will also thank you for your sponsorship on our social media with a link to your website.

Your sponsorship will enable us to hire a support vehicle that will lead the race and carry Baton yr Iaith between stretches.

£500

Your logo will be clearly placed on our website and we will thank you for your sponsorship on our social media with a link to your website.

Your sponsorship will go towards buying high-vis jackets for all stewards that will guard the runners.

Grant Contributions

This is an opportunity for societies, organisations or individuals who are local to the race route and supportive of the language to be involved. Through a contribution of £50 you will sponsor a stretch of the race. This money will be entered into a grant pot that will be available for organisations in those areas to try for. Grants will be given to organisations that are trying to increase or strengthen the use of the Welsh language in the community.

For your contribution the name of your organisation or the names of the individuals will be included on the Supporters page on our website and on placards during that stretch of the race.

THANK YOU

Ras yr Iaith is organised jointly by Rhedadeg company, Mentrau Iaith Cymru and some of the individual Mentrau Iaith that enable the race to visit communities all over Wales.

The race wouldn't take place without the support from county councils, town councils and police forces across Wales. The organisers are very thankful for their support and willingness to help.

But the greatest thanks goes to the runners and contributors for being generous with their money and their time to support the Welsh language in their communities. Thanks you!

MENTRAU IAITH